**EITEM AR YR AGENDA: 12**

**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**1af Chwefror 2010**

**Y broses benodi i swydd Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**

**Adroddiad gan Simon Smith, Y Prif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 Rhoi'r diweddaraf i aelodau'r Panel Gweithredol am y trefniadau ar gyfer recriwtio i swydd wag Prif Swyddog Tân Cynorthwyol.

## Cefndir

2 Yn 2008, wedi i'r cyn-Ddirprwy Brif Swyddog Tân ymadael, nodwyd bod angen sgiliau arbenigol o fewn yr uwch dîm rheoli ym maes adnoddau dynol a hyfforddiant sy'n benodol i'r sector. Penodwyd rhywun ar secondiad o Wasanaeth Tân ac Achub Glannau Mersi, a oedd yn gweithio gyda'r Ganolfan ar gyfer Arweinyddiaeth yng Ngholeg y Gwasanaeth Tân, am gyfnod treialu i brofi manteision y strwythur newydd hwn.

3 Wedi treial o 18 mis, penderfynodd y Prif Swyddog Tân fod angen y swydd hon yn barhaol, ac yn y cyfarfod o'r Awdurdod Tân ac Achub ar Ragfyr 21ain, 2009 penderfynwyd y dylid hysbysebu'r drydedd swydd Prif Swyddog Tân Cynorthwyol yn 2010, "a bod y Prif Swyddog Tân yn cyflwyno adroddiad pellach ynglŷn â'r amserlen a'r trefniadau recriwtio ar gyfer y swydd."

## Y broses benodi

4 Yn unol â phob penodiad i'r uwch dîm rheoli, bydd y penodiad hwn yn un gan yr aelodau. Bydd angen galw pwyllgor penodi â

6 aelod, yn cynnwys y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd a Swyddogion yr Awdurdod. Er cysondeb, cynigir y dylai'r pwyllgor fod yr un ag a gafodd ei gynnull ar gyfer penodi'r Dirprwy Brif Swyddog Tân yn Rhagfyr 2008.

5 Y cynnig yw hysbysebu'r swydd yn y cyfryngau lleol a chenedlaethol, a hynny er mwyn denu ymgeiswyr â'r cymwysterau addas. Dan gyfarwyddyd yr Awdurdod Tân ac Achub, caiff y swydd ei hysbysebu gyda'r disgwyliad y bydd gofyn i ddeiliad y swydd weithredu ar lefel 'Rheolaeth Aur'. Dylai'r ymgeiswyr naill ai fod wedi eu hyfforddi eisoes ar gyfer lefel 'Rheolaeth Aur' neu fod gofyn iddynt gyrraedd y lefel honno o fewn cyfnod rhesymol.

6 Hefyd, bydd gofyn i ddeiliad y swydd fod â sgiliau lefel 3 yn y Gymraeg, neu bydd gofyn iddynt gyrraedd y lefel honno o fewn cyfnod penodol.

7 Bydd y broses ddethol yn golygu cyfweliad ffurfiol gyda'r Prif Swyddog Tân, a Chlerc a Thrysorydd yr Awdurdod. Bydd yr ymgeiswyr a fydd yn llwyddiannus yn y cam hwnnw o'r broses yn gwneud cyflwyniad ac yn cael eu cyfweld gan y pwyllgor penodi wedi hynny. Y bwriad yw y bydd unrhyw benodiad yn cael ei gymeradwyo'n ffurfiol wedi hynny gan yr Awdurdod Tân ac Achub ar Fawrth 15$^{fed}$, 2010.

## Yr amserlen arfaethedig

8 Hysbysebu cyn diwedd Ionawr.
Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau fydd Chwefror 15$^{fed}$, 2010.
Llunio rhestr fer a gwahoddiadau i ddod i gyfweliad cychwynnol - Chwefror 19$^{eg}$, 2010.
Cyfweliad gyda'r swyddogion yn gynnar ym mis Mawrth. Y dyddiad i'w gadarnhau.
Cyfweliad gyda'r aelodau yn gynnar ym mis Mawrth. Y dyddiad i'w gadarnhau.
Cadarnhau'r penodiad yn y cyfarfod o'r Awdurdod Tân ac Achub ar Fawrth 15$^{eg}$, 2010.

## Argymhellion

9 Bod yr Aelodau'n:

(i) cymeradwyo'r broses arfaethedig a amlinelir uchod;
(ii) cadarnhau aelodaeth y pwyllgor penodi.